Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Polisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r Côd Ymarfer diwygiedig.

Mae'r ysgol hon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl blant. Ein man cychwyn yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol wrth i ni gynllunio ar gyfer diwallu anghenion penodol unigolion a grwpiau o blant. Wrth gynllunio, mae'r athrawon yn gosod heriau dysgu addas ac yn ymateb i anghenion dysgu amrywiol y plant. Mae rhai plant yn profi rhwystrau i'w dysgu sy'n golygu bod ganddynt anghenion arbennig ac sy'n gofyn am weithredu penodol gan yr ysgol.

Bydd y gofynion hyn yn debygol o godi o ganlyniad i'r ffaith bod gan y plant anghenion addysgol arbennig. Gall athrawon ystyried y gofynion hyn a darparu ar eu cyfer yn ôl y galw, i gefnogi unigolion neu grwpiau o blant, a thrwy hynny, eu galluogi i gyfranogi'n effeithiol yng ngweithgareddau'r cwricwlwm ac asesu. Hwyrach y bydd angen help ychwanegol neu help gwahanol ar blant o'r fath o'i gymharu â'r hyn a roddir i blant o'r un oedran.

Gall fod gan blant anghenion addysgol arbennig naill ai drwy gydol eu gyrfa addysgol neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm ac asesu'n ystyried y math o anhawster a graddau'r anhawster y bydd plant yn eu dioddef.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn nodi'r ffaith bod gan rai disgyblion ag anableddau anawsterau dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig. Serch hynny, ni fydd ar yr holl blant a ddiffiniwyd fel rhai ag anabledd angen y ddarpariaeth hon. Hwyrach na fydd gan blentyn ag asthma neu glefyd y siwgr er enghraifft, anghenion addysgol arbennig, ond bydd ganddynt hawliau o hyd o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Byddwn yn asesu pob plentyn yn ôl y galw, ac yn cynllunio'r ddarpariaeth briodol, wedi'i seilio ar yr anghenion a nodwyd.

Nodau

Dyma nodau'r polisi hwn:

• creu amgylchedd sy'n diwallu anghenion addysgol arbennig pob plentyn;
• sicrhau bod anghenion addysgol arbennig y plant yn cael eu nodi a'u hasesu a bod darpariaeth ar eu cyfer;
• egluro disgwyliadau'r holl bartneriaid yn y broses;

• nodi rolau a chyfrifoldebau staff wrth ddarparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig y plant;
• galluogi mynediad llawn i holl agweddau cwricwlwm yr ysgol i bob plentyn ;
• sicrhau bod rhieni'n gallu cyflawni eu rhan wrth gefnogi addysg eu plant;
• sicrhau bod gan ein plant lais yn y broses hon.

Cynhwysiad Addysgol

Yn ein hysgol, ein nod yw cynnig rhagoriaeth a dewis i'n holl blant, beth bynnag yw eu gallu a'u hanghenion. Mae gennym ddisgwyliadau mawr i'n holl blant. Ein nod yw cyflawni hyn drwy symud y rhwystrau i ddysgu a chyfranogi. Ein dymuniad yw bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn rhan werthfawr o gymuned yr ysgol. Drwy ddarpariaeth gwricwlaidd briodol, rydym yn derbyn bod gan blant

• anghenion addysgol ac ymddygiad a dyheadau gwahanol;
• bod angen strategaethau gwahanol ar gyfer dysgu arnynt
• eu bod yn caffael, yn cymathu ac yn cyfathrebu gwybodaeth i wahanol raddau;
• bod angen amrywiaeth o ddulliau addysgu a phrofiadau arnynt.

Bydd athrawon yn ymateb i anghenion plant drwy:

• ddarparu cefnogaeth i blant lle bo angen help arnynt wrth gyfathrebu, mewn iaith a llythrennedd;
• cynllunio i ddatblygu dealltwriaeth plant drwy ddefnyddio'u holl synhwyrau a phrofiadau amrywiol;
• cynllunio ar gyfer cyfranogaeth lwyr y plant mewn dysgu, ac mewn gweithgareddau corfforol ac ymarferol;
• helpu plant i reoli eu hymddygiad a chymryd rhan mewn dysgu mewn ffordd effeithiol a diogel;
• helpu unigolion i reoli eu hemosiynau, yn enwedig trawma a straen, a chymryd rhan mewn dysgu.

Anghenion addysgol arbennig

Mae gan blant ag anghenion addysgol arbennig anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth arbennig. Gall pob plentyn gael anawsterau arbennig rywbryd yn ystod eu bywyd. Mae gan blant anhawster dysgu:

- os ydynt yn cael anhawster wrth ddysgu sy'n sylweddol fwy na mwyafrif y plant o'r un oed;
- os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio'r cyfleusterau addysgol a ddarperir ar gyfer plant eraill o'r un oed.

Mae llawer o'r plant sy'n ymuno â ni eisoes wedi cymryd rhan mewn addysg gynnar. Mewn sawl achos, mae plant yn ymuno â ni ac mae eu hanghenion eisoes wedi'u hasesu. Mae pob plentyn yn cael ei asesu pan maent yn dechrau yn ein hysgol, er mwyn i ni adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon fel mannau cychwyn i ddatblygu cwricwlwm addas i'n holl blant.

Os bydd ein hasesiadau'n dangos bod gan blentyn anhawster dysgu o bosib, byddwn yn
defnyddio amrywiaeth o strategaethau sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael yn y dosbarth ac yn yr ysgol. Gelwir y gefnogaeth ar y lefel hon yn **Gweithredu Ysgol**. Bydd athrawon dosbarth y plant yn cynnig ymyrraeth sy'n wahanol neu'n ychwanegol i'r hyn a ddarperir fel rhan o arferion gweithio arferol yr ysgol. Bydd yr athrawon dosbarth yn hysbysu'r rhieni o'r hyn sy'n digwydd ac yn defnyddio'r wybodaeth ychwanegol a gânt gan rieni. Bydd Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol (y SENCO) yn cyfranogi os nad yw eisoes yn gwneud hynny, os bydd yr athrawon a'r rhieni'n barnu y byddai'r plentyn yn elwa o gymorth pellach. Bydd y SENCO o hynny ymlaen yn arwain gydag asesiadau pellach o anghenion y plentyn.

Byddwn yn cofnodi'r strategaethau a ddefnyddir i gefnogi'r plentyn mewn Cynllun Addysg Unigol (CAU). Bydd y CAU yn dangos y targedau tymor byr a bennir ar gyfer y plentyn, a'r strategaethau addysgu a ddefnyddir. Bydd hefyd yn awgrymu'r canlyniadau a gynllunnir a dyddiad adolygu'r cynllun. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr adolygiad hwn yn digwydd ddwywaith y flwyddyn.

Os bydd adolygu'r CAU'n awgrymu bod angen cymorth gan asiantaethau allanol, byddwn yn ymgynghori â'r rhieni cyn cymryd unrhyw gamau. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gwasanaethau cefnogi allanol yn gweld y plant yn yr ysgol. Gall hyn arwain at strategaethau ychwanegol neu strategaethau sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn ystod Gweithredu Ysgol. Gelwir y gefnogaeth ychwanegol hon yn **Gweithredu Ysgol a Mwy**. Bydd y gwasanaethau cefnogi allanol yn darparu'r wybodaeth ar gyfer CAU newydd y plentyn. Gweithredir strategaethau newydd y CAU yn nosbarth arferol y plentyn neu ar brydiau y tu allan i sefyllfa arferol y dosbarth.

Os yw'n amlwg bod anawsterau'r plentyn yn parhau i achosi pryder, gwneir cais am asesiad statudol gan yr AALl. Bydd amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig am y plentyn yn cefnogi'r cais.

Yn ein hysgol ni, dyma gyfrifoldebau'r SENCO:
• rheoli gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd;
• cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion arbennig y plant a'r ymatebion i hynny;
• cefnogi a chynghori cydweithwyr;
• goruchwylio cofnodion yr holl blant ag anghenion addysgol arbennig;
• gweithredu fel cyswllt â rhieni;
• gweithredu fel cyswllt ag asiantaethau allanol ac asiantaethau cefnogi eraill;
• monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig, ac adrodd i'r corff llywodraethu;
• rheoli amrywiaeth o adnoddau, dynol a deunyddiau, er mwyn cynnig y ddarpariaeth briodol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig;
• cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol yr holl staff.

Rôl y corff llywodraethu

Bydd y corff llywodraethu'n rhoi'r ystyriaeth briodol i'r Côd Ymarfer wrth gyflawni

ei ddyletswyddau o ran yr holl ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Bydd y corff llywodraethu'n ymdrechu i sicrhau y bydd y ddarpariaeth briodol ar gael i bob disgybl y nodir bod ganddo anghenion addysgol arbennig. Bydd y llywodraethwyr yn sicrhau bod yr holl athrawon yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu ar gyfer y plant hyn. Byddant yn ymgynghori â'r AALl ac ysgolion eraill, pan fo hynny'n briodol, ac yn adrodd bob blwyddyn i rieni ar lwyddiant polisi'r ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Bydd y corff llywodraethu'n sicrhau y bydd rhieni'n cael gwybod am unrhyw benderfyniad gan yr ysgol i ddarparu ar gyfer AAA eu plentyn.

Mae'r corff llywodraethu wedi enwebu llywodraethwr a fydd yn gyfrifol am oruchwylio darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod pawb sy'n addysgu disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig yn ymwybodol o natur y datganiad hwnnw.

Bydd y llywodraethwr AAA yn sicrhau bod yr holl lywodraethwyr yn ymwybodol o ddarpariaeth AAA yr ysgol, gan gynnwys defnyddio arian, cyfarpar a phersonél.

Dyrannu adnoddau

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol yr adnoddau penodol a chytunedig ar gyfer y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth a'r SENCO yn cwrdd bob blwyddyn i gytuno ar sut i wario'r arian sy'n ymwneud yn benodol â datganiadau.

Asesu

Mae nodi anawsterau'n gynnar yn hanfodol. Bydd athrawon dosbarth yn hysbysu rhieni cyn gynted â phosib er mwyn eu rhybuddio am bryderon ac i gael eu help a'u cyfraniad ymarferol.

Bydd yr athrawon dosbarth a'r SENCO yn asesu ac yn monitro cynnydd y plentyn yn unol ag arferion cyfredol yr ysgol. Proses barhaus yw hon.

Bydd y SENCO'n gweithio'n agos â rhieni ac athrawon er mwyn cynllunio rhaglen gefnogi addas.

Mae asesu'r plant yn adlewyrchu, i'r graddau y mae hynny'n bosib, gyfranogiad y plant yng nghwricwlwm cyfan yr ysgol. Bydd yr athrawon dosbarth a'r SENCO'n gallu rhannu'r asesu'n gamau llai er mwyn helpu cynnydd y disgybl a darparu dangosyddion manwl a chywir.

Bydd yr AALl yn ceisio cyngor amrywiol cyn rhoi datganiad ffurfiol. Anghenion y plentyn sydd yn hollbwysig yn hyn o beth.

Mynediad i'r cwricwlwm

Mae gan bob plentyn hawl i gwricwlwm eang a chytbwys, sydd wedi'i wahaniaethu er mwyn iddo:

• ddeall perthnasedd a phwrpas gweithgareddau dysgu;
• profi lefelau dealltwriaeth a graddau cynnydd sy'n rhoi ymdeimlad o lwyddo a chyflawni.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plant. Mae gan wersi amcanion dysgu clir, rydym yn gwahaniaethu gwaith yn briodol, ac rydym yn defnyddio asesu er mwyn datblygu'r camau dysgu nesaf.

Mae CAU, sy'n defnyddio dulliau camau bach, yn bwysig yn y ddarpariaeth yn yr ysgol. Wrth rannu'r lefelau cyrhaeddiad presennol yn gamau bach graddedig a thargedau, rydym yn sicrhau bod y plant yn profi beth yw llwyddiant. Mae gan yr holl blant ar gyfnodau Gweithredu Ysgol a Gweithredu Ysgol a Mwy Gynllun Addysg Unigol.

Rydym yn cefnogi plant mewn ffordd sy'n cydnabod eu hawl i gyfrannu o'r un profiadau dysgu â'u cyfoedion. Ble bynnag y bo hynny'n bosib, nid ydym yn tynnu plant allan o'r dosbarth. Serch hynny, ar brydiau, er mwyn elwa i'r eithaf ar y dysgu, byddwn yn gosod plant i weithio mewn grwpiau bach neu mewn sefyllfa un i un y tu allan i'r ystafell dosbarth.

Partneriaeth gyda rhieni

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda rhieni wrth gefnogi'r plant hynny ag anghenion addysgol arbennig. Rydym yn hybu partneriaeth ymarferol drwy drafodaeth barhaus â rhieni. Mae'r cytundeb cartref-ysgol yn hanfodol i hyn. Mae gan rieni lawer i'w gyfrannu at y gwaith o gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig.

Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys manylion ein polisi ar gyfer anghenion addysgol arbennig, a'r trefniadau a wneir ar gyfer y plant hynny yn ein hysgol. Mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni'n cynnwys gwerthusiad o'r polisi fel y mae'n cael ei weithredu.

Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd i rannu cynnydd plant ag anghenion addysgol arbennig â'u rhieni. Rydym yn hysbysu rhieni am unrhyw ymyrraeth allanol, ac rydym yn rhannu'r broses o benderfynu drwy roi gwybodaeth glir ynghylch addysg plant ag anghenion addysgol arbennig.

Cyfranogiad disgyblion

Yn ein hysgol, rydym yn annog plant i fod yn gyfrifol a llunio penderfyniadau. Mae hynny'n rhan o ddiwylliant ein hysgol ac mae'n berthnasol i blant o bob oed. Mae'r gwaith yn y Cyfnod Sylfaen yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sgiliau

cymdeithasol ac addysgol plant.

Mae gan blant gyfraniad ar y lefel briodol wrth bennu targedau yn eu CAU a'r cyfarfodydd adolygu CAU bob tymor. Anogir y plant i lunio barn am eu perfformiad eu hunain yn ôl targedau eu CAU. Rydym yn cydnabod llwyddiant yn y maes hwn fel ag y gwnawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Monitro ac adolygu

Mae'r SENCO yn monitro datblygiad y plant yn system AAA yr ysgol. Mae'r SENCO yn darparu crynodebau rheolaidd i'r staff a'r llywodraethwyr ynghylch effaith y polisi ar arfer yr ysgol.

Mae'r SENCO yn cefnogi athrawon wrth lunio CAU i blant unigol. Mae'r SENCO a'r pennaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu gwaith yr ysgol yn y maes hwn. Mae'r SENCO a'r llywodraethwr a enwir sy'n gyfrifol am anghenion arbennig hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd.

Caiff y polisi yma ei adolygu yn ôl yr angen gan y corff llywodraethol gan ystyried unrhyw newidiadau o ganlyniad i gasgliadau'r adolygiad blynyddol. Mae'r SENCO'n adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad i'r corff llywodraethu llawn.